# HWB
## SGILIAU HANFODOL

LLYFRYN

# CYFATHREBU

Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

d1.0 - 2021

# CYFLWYNIAD

Mae'r pecyn yn addas ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio ar Lefel 1 a Lefel 2, sy'n anelu at gymhwyster Cyfathrebu neu unrhyw un sydd eisiau hybu eu sgiliau iaith a chyfathrebu. Mae'r pecyn yn canolbwyntio ar y gwahanol ffyrdd o gyfathrebu mewn sefyllfaoedd ymarferol.

Mae'r pecyn yn cynnwys y pynciau canlynol:

- Ymchwilio i wrando ar gyflwyniadau ar bynciau eang.
- Defnyddio atalnodi a threigladau yn effeithlon.
- Ysgrifennu yn bwrpasol ar gyfer y gynulleidfa.
- Defnyddio geirfa ddisgrifiadol.
- Ymateb i gwestiynau a chyfleu barn mewn trafodaeth.
- Ysgrifennu dogfennau amrywiol e.e. llythyrau, e-byst, erthyglau.
- Darllen dogfennau amrywiol ac ymateb yn ysgrifenedig.
- Creu a chyflwyno cyflwyniad.

Ewch ati i gwblhau'r pecyn, un cam ar y tro! Ymchwiliwch yn ddyfnach i mewn i bynciau os ydych yn ansicr ac awgrymwn i chi roi digon o seibiannau i'ch hunan wrth ei gwblhau fel nad yw'r pynciau yn pentyrru.

Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coleg Cymraeg Cenedlaethol



# SUT I DDEFNYDDIO'R PECYN

Ar ddechrau pob rhan mae cyflwyniad yn esbonio pwnc a'r camau sydd angen i gwblhau'r ymarferion a'r tasgau.

Yna, mae gwaith ymarferol a thasgau i'w cwblhau ym mhob rhan. Mae modd i chi gwblhau'r pecyn mewn rhannau, felly cwblhewch y cyfan yn bwyllog gan gofio cymryd seibiannau rheolaidd.

Gallwch ddefnyddio'r pecyn yn ddigidol, ond os hoffech gopi caled, gallwch ei argraffu a'i lenwi â llaw.

Llenwch y blychau ar y tudalennau perthnasol ym mhob pwnc a dangoswch eich nodiadau a'ch drafftiau ar y tudalennau ychwanegol ar ddiwedd y pecyn. Gallwch ysgrifennu eich nodiadau ar bapur ac yna mewnosod lluniau i'r tudalennau ychwanegol i gyd-fynd â'ch atebion.

Drwy'r pecyn hwn fe welwch chi nifer o symbolau gwahanol. Bydd rhai o'r rhain yn cynnwys gwybodaeth i'ch helpu, tra bod eraill - fel y blychau atebion a tudalennau cyfrifo - yn eich caniatáu i lenwi'r pecyn yn ddigidol.

**Dyma gyflwyniad i'r elfennau yma:**



## GWYBODAETH BWYSIG

Drwy'r pecyn, fe ddewch chi ar draws y symbol yma. Mae'r rhain yn tynnu eich sylw at wybodaeth bwysig sy'n ymwneud â'r pwnc neu'r ymarfer.

Sicrhewch eich bod yn eu darllen yn ofalus.

## ENGHREIFFTIAU

Mae nifer o enghreifftiau wedi'u cynnwys o fewn yr adrannau gwahanol i helpu esbonio rhai o'r prosesau.


Gellir gweld rhain wedi'u gosod mewn blychau fel hyn. Gall rhain roi cyd-destun defnyddiol iawn i helpu deall yr hyn mae'r cwestiwn neu nodiadau yn esbonio - sicrhewch eich bod yn eu darllen!

> **Esiampl**
>
> Mae ganddi hi wallt byr gwyn ac mae ganddi roleri pinc yn ei dal i fewn ar ben ei phen. Tu ôl i'w sbectol drwchus sy'n eistedd ar ei thrwyn, mae ganddi lygaid glas golau. Ychydig iawn o golur mae hi'n ei wisgo, dim ond cochni ar ei bochau crwn a minlliw naturiol ar ei gwefusau. Mae hi'n gwisgo modrwy ar ei bys ac mae hi'n chwarae gyda fo'n anymwybodol wrth siarad. Mae hi'n arogli fel persawr drud er nad ydy hi am adael y tŷ ac mae ganddi esgidiau am ei thraed sydd â sodlau byr. Gwisgai sgert, crys a ffedog ac mae'n hoffi coginio felly yn aml, mae arogl melys yn ei thŷ a fflŵr ar ei dillad.

## YMARFERION - LLENWI ATEBION

Mae'r ymarferion i gyd yn eich caniatáu i lenwi'r atebion yn ddigidol yn y ddogfen. Er bod amrywiaeth mewn sut mae'r cwestiynau wedi'u gosod, mae'r blychau atebion i gyd wedi'u fformatio yr un peth i fod yn glir ble sydd angen i chi lenwi.

Dyma ambell i enghraifft o osodiad cwestiynau gwnewch chi ddod ar draws yn y pecyn:





**Cwestiwn ac ateb testun.**

Gall rhain fod yn flychau ateb un llinell, fel yn y llun cyntaf, neu'n flwch testun mwy o faint os oes disgwyl ateb hirach.

Os yw eich ateb yn hirach na maint y bocs, peidiwch â phoeni - mi fydd y blwch yn caniatáu i chi barhau i deipio ynddo drwy leihau maint y ffont, neu gynnig bar sgrolio i ddarllen yr ateb cyfan.

Os ydych chi angen rhagor o le, geler y dudalen nesaf sy'n esbonio'r tudalennau ateb ychwanegol sydd ar gael i chi.




**Cwestiwn aml-ddewis**

Mi fydd rhai cwestiynau yn cael eu hateb drwy ddewis opsiynau o ddewislen. Cliciwch y botwm i agor y rhestr, yna dewiswch eich ateb.



## UWCHLWYTHO LLUNIAU

Ar gyfer ambell i ymarfer, e.e creu posteri a chyflwyniadau, fe welwch chi'r eicon camera yma. Pan welwch chi'r eicon yma gallwch uwchlwytho llun o'ch gwaith yn uniongyrchol i'r dudalen.

Gall hyn fod yn lun neu, os ydy'r gwaith wedi'i gwneud ar gyfrifiadur, yn fersiwn digidol (jpg/png/pdf) o'r gwaith.

## TUDALENNAU ATEB/YCHWANEGOL


Mae 2 fath o dudalen ateb:

A. **Tudalen ateb/nodiadau teipio** - tudalen gyffredinol i ganiatáu i chi deipio'n rhydd yn y blwch.

B. **Tudalen i uwchlwytho lluniau** - os ydych yn dewis gwneud y gwaith ysgrifennu (atebion neu nodiadau) ar bapur eich hun, mae'r tudalennau yma yn eich caniatáu i uwchlwytho llun o'r gwaith hynny fel bod modd cyfeirio atyn nhw'n hawdd.

**PWYSIG** - Ar gyfer y ddau fath o dudalen ateb uchod, cofiwch lenwi y blychau 'Adran' / 'Tudalen' - mi fydd hyn yn help i gadw trefn ar eich gwaith, ac i wybod at ba ran o'r pecyn mae'r dudalen yn cyfeirio.

A



Tudalen Atebion Estynedig


Defnyddiwch y dudalen yma i deipio eich atebion i gwestiynau os oes angen mwy o le na sydd yn y blwch ateb. Gallwch hefyd ddefnyddio'r dudalen yma i deipio nodiadau ar gyfer unrhyw gwestiwn.

Nodwch yn y blwch ar y dde (ar ben y dudalen) at ba adran a thudalen o'r pecyn mae eich atebion yn cyfeirio, a sicrhewch eich bod yn nodi rhif y cwestiwn ar ddechrau pob ateb.

| ADRAN | TUDALEN |
|---|---|
| | |

| Cwestiwn | Blwch Teipio |
|---|---|
| | |

B



Tudalen Ateb - Uwchlwytho Llun

Os ydych wedi ysgrifennu eich ateb neu eich nodiadau ar bapur, cymerwch lun ohono a'i uwchlwytho i mewn i'r blwch isod.

Nodwch yn y blwch ar y dde (ar ben y dudalen) at ba adran a thudalen o'r pecyn mae eich atebion yn cyfeirio.

| ADRAN | TUDALEN |
|---|---|
| | |

| Uwchlwytho llun |
|---|
| |

HWB
SGILIAU HANFODOL

LLYFRYN CYFATHREBU

# 1. CYFATHREBU

Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

d1.0 - 2021

# BETH YW 'CYFATHREBU'?

Diffiniad cyfathrebu yw 'rhoi neu gyfnewid gwybodaeth wrth siarad, ysgrifennu neu wrth ddefnyddio cyfrwng arall'.

Gall gyfathrebu fod yn benodol at rywun, llythyr neu e-bost personol neu gall fod ar gyfer gynulleidfa mawr o bobl, erthygl neu yn boster mewn adeilad.

I gyfathrebu'n effeithiol, mae'n bwysig i ni feddwl pwy yw'r gynulleidfa. Mae hyn yn effeithio'r ffordd rydym yn cyfathrebu achos gallwn newid yr iaith yn ffurfiol os ydym yn cyfathrebu gyda busnes neu chyflogwyr, ond byddwn yn cyfathrebu'n anffurfiol wrth gyfathrebu gyda ffrind.

## Ffurfiol neu anffurfiol?

Grwpiwch y gwahanol ffyrdd o gyfathrebu isod yn 'ffurfiol' neu'n 'anffurfiol'. Teipiwch y llythyren ar ddechrau pob ateb (a, b, c) ym mlwch y grŵp rydych chi'n meddwl y dylai ymddangos. Mae'n bosibl fod rhai yn ffurfiol ac yn anffurfiol, gall hyn ddibynnu ar y pynciau.

a) Cyfweliad ar y radio

b) Dyddiadur personol

c) Galwad ffôn gyda ffrind

ch) Erthygl papur newydd

d) Llythyr gan y banc

dd) Neges destun gan hen ffrind

e) Blog ar-lein

f) Erthygl mewn cylchgrawn clecs

ff) Trafodaeth am newyddion gyda'r teulu

g) Cwyn dros e-bost i gwmni


ng) Archebu mewn bwyty

h) Hysbyseb swydd

i) Gwefan y Llywodraeth

j) Rhaglen deledu gomedi


l) Cyfarfod gyda rheolwr



## Cyn ysgrifennu dogfen

Cyn mynd ati i ddechrau ysgrifennu, sicrhewch fod geiriadur eich dogfen yn yr iaith gywir. Awgrymwn i chi ddefnyddio '*Microsoft Word*' gan ei fod yn llwyddo i wirio sillafu yn yr iaith Gymraeg wrth i chi ysgrifennu.

Yn y llun isod gallwch weld ble sydd angen clicio.




Ar ôl clicio ar yr iaith, darganfyddwch 'Welsh' neu 'Cymraeg' a gwasgwch 'Iawn' ar gyfer y ddogfen gyfan.

Os nad oes gennych chi'r opsiwn iaith ar y gwaelod, ewch i Ffeil (*File*), Dewisiadau (*Options*), Iaith (*Language*) ac ychwanegwch 'Cymraeg' i'r rhestr ieithoedd sydd ar gael i chi.

Gallwch yna gadarnhau pa iaith yw eich prif ddewis ond bydd 'Cymraeg' yn opsiwn i chi glicio i newid yr iaith at y dyfodol.

Yna, pan fyddwch chi'n dechrau ysgrifennu yn y ddogfen, bydd *Word* yn gwirio eich sillafu. Os oes tan-linelliad coch yn ymddangos o dan y gair mae hynny'n golygu ei fod wedi ei gamsillafu. De-gliciwch ar y gair hwnnw a dewiswch y sillafiad cywir iddo. Yn aml bydd mwy nag un opsiwn yn ymddangos fan hyn felly sicrhewch eich bod yn dewis yr un cywir ar gyfer y cyd-destun. O bosibl, bydd hyn yn golygu chwilio yn y geiriadur i sicrhau eich bod yn defnyddio'r gair priodol.

Mae sawl geiriadur ar-lein sy'n gymorth mawr wrth ysgrifennu dogfennau amrywiol. Mae'r rhain yn cynnwys 'Geiriadur yr academi', 'Geiriadur Prifysgol Bangor' neu gallwch lawrlwytho meddalwedd 'Cysgeir' sy'n ddefnyddiol iawn. Ar gyfer eich ffôn symudol mae'r rhaglen 'Ap Geiriaduron' sy'n hynod ddefnyddiol i ehangu eich geirfa wrth gyfathrebu yn y Gymraeg.

# Blog

### Ysgrifennwch ddarn ar gyfer blog.

Gallwch ysgrifennu am eich diwrnod/wythnos, eich diddordebau neu am brofiad cofiadwy yn eich bywyd. Ysgrifennwch tua 200 gair.

**Esiampl – Profiad Cofiadwy (drafft 1)**

Es i deithio am saith mis o mis Medi 2018 i mis Ebrill 2019. Gwnaethom hedfan i Canada ar gyfer ein gwlad cyntaf a dechrueom yn Montreal. Roedd pawb yn siarad ffrangeg yno a roeddem yn aros mewn hostel oedd arfer bod yn garchar! Yna aethom i Toronto, gwnaethom wylio gem pel-fas, a seiclo o gwmpas parc ynys Toronto cyn mynd i Niagra Falls. Gwnaethom deithio yn bell wedyn ar fws i groesi'r border i Chicago. Yno cawsom fwyta llawer o pizza "deep dish" a crwydro'r dinas wyntog i gwrnado ar cerddoriaeth "Blues". Ar ôl Chicago gwnaethom hedfan i Boston i weld Prifysgol Harvard a gwylio y Celtics yn chwarae pel fasged yno yna teithio ar fws i'r De lawr at Efrog Newydd ble aethom i weld sioe gerdd a mynd ar teithiau amrywiol gan cynnwys taith y cerflun rhyddid a cerdded pont Brooklyn.

### Drafft 1

## Gwirio eich gwaith

Ar ôl gorffen ysgrifennu eich drafft cyntaf, mae angen ei brawf-ddarllen. Mae'n hollbwysig eich bod yn gwirio eich gwaith cyn ei yrru at eich tiwtor/aseswr. Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw gamsillafu yn cael ei gywiro, bod eich brawddegau yn llifo ac gwneud synnwyr yn ogystal â sicrhau safon gwaith uchel.

- **Y cam cyntaf** i wirio eich gwaith yw ei ddarllen. Wrth i chi ei ddarllen efallai bydd gan rai geiriau dan-linelliad coch, mae angen cywiro'r camsillafiadau hyn. Eto, os nad ydych yn siŵr pa sillafiad yw'r un cywir ar gyfer yr ystyr, ymchwiliwch mewn geiriadur.
- **Yr ail gam** wrth wirio eich gwaith yw ei ddarllen allan yn uchel! Mae'r cam yma'n hollbwysig achos mae angen sicrhau bod y brawddegau'n llifo. Wrth i chi ei ddarllen yn uchel efallai byddwch yn sylweddoli ar frawddeg sydd angen cael ei addasu i wneud synnwyr, neu byddech yn rhedeg allan o wynt ac yn sylwi bod angen ychwanegu atalnod (*coma*) neu atalnod llawn!
- **Y trydydd cam** yw i wirio eich gwaith ar '*Cysill*'. Mae'r meddalwedd yma yn gymorth hanfodol ar gyfer creu drafft terfynol gan ei fod yn gwirio gramadeg yn yr iaith Gymraeg. Os ydych wedi lawrlwytho'r geiriadur '*Cysgeir*' mae'n debygol bod *Cysill* hefyd wedi cael ei lawrlwytho, felly gallwch ei ddefnyddio'n syth. Peidiwch â phoeni os nad ydych yn gallu ei lawrlwytho, mae fersiwn ar-lein o *Cysill* ar gael i'w ddefnyddio.

  Bydd *Cysill* yn gwirio ac yn rhoi opsiynau sillafu, treigladau ac yn awgrymu yr pryd bydd angen atalnodi yn eich gwaith. Ond, mae *Cysill* eisiau cywiro POPETH felly mae'n bwysig gwirio beth mae eisiau cywiro cyn cytuno gyda phob awgrymiad.
- **Y cam olaf** yw i ddarllen y ddogfen eto. Mae angen sicrhau bod y brawddegau dal yn gwneud synnwyr ar ôl i Cysill ei wirio, felly gwnewch hyn cyn gyrru/ddefnyddio'r ddogfen.

### Sut i ddefnyddio Cysill

1. Copïwch eich gwaith o'r ddogfen a'i ludo yn *Cysill*.
2. Cliciwch ar 'Gwirio'.
3. Bydd *Cysill* wedyn yn mynd drwy'r ddogfen gyfan yn cywiro treigladau, camsillafiadau a hyd brawddegau. Ond, bydd yn gofyn i chi bob tro os ydych yn derbyn y cywiriad hwnnw.
4. **PEIDIWCH** â chlicio ar 'Cywiro' yn syth i bob un. Mae angen gweld beth mae *Cysill* yn cywiro ac mae angen gwirio os yw hynny'n gwneud synnwyr yn eich gwaith chi.
5. Parhewch i gywiro'r ddogfen trwy *Cysill* tan mae'n dweud 'wedi gorffen gwirio'.
6. Copïwch y gwaith cyfan o *Cysill* a'i ludo yn ôl i'ch dogfen chi.

## Drafft terfynol

Ar ôl mynd trwy'r camau gwirio i gyd, gosodwch ddrafft terfynol o'ch blog isod.

### Esiampl – Profiad Cofiadwy

Es i deithio am saith mis o fis Medi 2018 i fis Ebrill 2019. Gwnaethom hedfan i Ganada ar gyfer ein gwlad gyntaf a dechreuom ym Montreal. Roedd pawb yn siarad Ffrangeg yno ac roeddem yn aros mewn hostel a oedd arfer bod yn garchar! Yna aethom i Toronto, gwnaethom wylio gem pêl-fas a seiclo o gwmpas parc ynys Toronto cyn mynd i weld Rhaeadr Niagra. Gwnaethom deithio yn bell wedyn ar fws i groesi'r ffin at Chicago. Yno cawsom fwyta llawer o bitsa "dysgl ddofn" a chrwydro'r ddinas wyntog i wrando ar gerddoriaeth "Blues". Ar ôl Chicago gwnaethom hedfan i Boston, gwelom Brifysgol Harvard a'r Celtics yn chwarae pêl-fasged. Yna teithiom ar fws i'r De lawr at Efrog Newydd ble aethom i weld sioe gerdd. Aethom ar deithiau amrywiol yno gan gynnwys taith y Cerflun Rhyddid a cherdded Pont Brooklyn.

### Y drafft terfynol

HWB
SGILIAU HANFODOL

LLYFRYN CYFATHREBU

# 7. TUDALENNAU YCHWANEGOL

Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

d1.0 - 2021

# Tudalen Atebion Estynedig

Defnyddiwch y dudalen yma i deipio eich atebion i gwestiynau os oes angen mwy o le na sydd yn y blwch ateb. Gallwch hefyd ddefnyddio'r dudalen yma i deipio nodiadau ar gyfer unrhyw gwestiwn.

Nodwch yn y blwch ar y dde (ar ben y dudalen) at ba adran a thudalen o'r pecyn mae eich atebion yn cyfeirio, a sicrhewch eich bod yn nodi rhif y cwestiwn ar ddechrau pob ateb.

| ADRAN | TUDALEN |
|---|---|
| | |

| Cwestiwn | Blwch Teipio |
|---|---|
| | |

Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru Welsh Government

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Tudalen Atebion Estynedig

Defnyddiwch y dudalen yma i deipio eich atebion i gwestiynau os oes angen mwy o le na sydd yn y blwch ateb. Gallwch hefyd ddefnyddio'r dudalen yma i deipio nodiadau ar gyfer unrhyw gwestiwn.

Nodwch yn y blwch ar y dde (ar ben y dudalen) at ba adran a thudalen o'r pecyn mae eich atebion yn cyfeirio, a sicrhewch eich bod yn nodi rhif y cwestiwn ar ddechrau pob ateb.

| ADRAN | TUDALEN |
|---|---|
| | |

| Cwestiwn | Blwch Teipio |
|---|---|
| | |

# Tudalen Atebion Estynedig

Defnyddiwch y dudalen yma i deipio eich atebion i gwestiynau os oes angen mwy o le na sydd yn y blwch ateb. Gallwch hefyd ddefnyddio'r dudalen yma i deipio nodiadau ar gyfer unrhyw gwestiwn.

Nodwch yn y blwch ar y dde (ar ben y dudalen) at ba adran a thudalen o'r pecyn mae eich atebion yn cyfeirio, a sicrhewch eich bod yn nodi rhif y cwestiwn ar ddechrau pob ateb.

| ADRAN | TUDALEN |
|---|---|
| | |

| Cwestiwn | Blwch Teipio |
|---|---|
| | |

Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Tudalen Atebion Estynedig

Defnyddiwch y dudalen yma i deipio eich atebion i gwestiynau os oes angen mwy o le na sydd yn y blwch ateb. Gallwch hefyd ddefnyddio'r dudalen yma i deipio nodiadau ar gyfer unrhyw gwestiwn.

Nodwch yn y blwch ar y dde (ar ben y dudalen) at ba adran a thudalen o'r pecyn mae eich atebion yn cyfeirio, a sicrhewch eich bod yn nodi rhif y cwestiwn ar ddechrau pob ateb.

| ADRAN | TUDALEN |
|---|---|
| | |

| Cwestiwn | Blwch Teipio |
|---|---|
| | |

# Tudalen Atebion Estynedig

Defnyddiwch y dudalen yma i deipio eich atebion i gwestiynau os oes angen mwy o le na sydd yn y blwch ateb. Gallwch hefyd ddefnyddio'r dudalen yma i deipio nodiadau ar gyfer unrhyw gwestiwn.

Nodwch yn y blwch ar y dde (ar ben y dudalen) at ba adran a thudalen o'r pecyn mae eich atebion yn cyfeirio, a sicrhewch eich bod yn nodi rhif y cwestiwn ar ddechrau pob ateb.

| ADRAN | TUDALEN |
|---|---|
| | |

| Cwestiwn | Blwch Teipio |
|---|---|
| | |

## Tudalen Ateb - Uwchlwytho Llun

Os ydych wedi ysgrifennu eich ateb neu eich nodiadau ar bapur, cymerwch lun ohono a'i uwchlwytho i mewn i'r blwch isod.

Nodwch yn y blwch ar y dde (ar ben y dudalen) at ba adran a thudalen o'r pecyn mae eich atebion yn cyfeirio.

| ADRAN | TUDALEN |
|---|---|
| | |

Uwchlwytho llun

## Tudalen Ateb - Uwchlwytho Llun

Os ydych wedi ysgrifennu eich ateb neu eich nodiadau ar bapur, cymerwch lun ohono a'i uwchlwytho i mewn i'r blwch isod.

Nodwch yn y blwch ar y dde (ar ben y dudalen) at ba adran a thudalen o'r pecyn mae eich atebion yn cyfeirio.

| ADRAN | TUDALEN |
| --- | --- |
| | |

Uwchlwytho llun

Prentisiaethau
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Tudalen Ateb - Uwchlwytho Llun

Os ydych wedi ysgrifennu eich ateb neu eich nodiadau ar bapur, cymerwch lun ohono a'i uwchlwytho i mewn i'r blwch isod.

Nodwch yn y blwch ar y dde (ar ben y dudalen) at ba adran a thudalen o'r pecyn mae eich atebion yn cyfeirio.

| ADRAN | TUDALEN |
|---|---|
| | |

Uwchlwytho llun

HWB
SGILIAU HANFODOL

Prentisiaethau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol